**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-17-00(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Hydref 2000 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **Deddf Iechyd 1999, Adran 31 - Hyblygrwydd, Canllawiau Drafft** |

**Diben**

1. Mae’r ddogfen yn rhoi cyfle i’r Pwyllgor gynnig sylwadau ynghylch y canllawiau drafft amgaeedig sy’n ymwneud â defnydd cyrff yr NHS ac awdurdodau lleol o bwerau dan Adran 31 Deddf Iechyd 1999 i wella gweithio ar y cyd. Dylid ei darllen ochr yn ochr â dogfen HSS-16-00 (p.4) am y canllawiau drafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Medi.

2. Ym mis Mehefin, cafodd y Pwyllgor gopi o fersiwn ymgynghorol y canllawiau drafft oedd yn cynnwys y rheoliadau drafft. Mae’r canllawiau drafft amgaeedig yn cyfeirio at y rheoliadau drafft, ond nid ydynt yn atodol iddynt. Yr oedd yr aelodau’n hapus â’r rheoliadau drafft yn y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Medi a nodwyd y byddent yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Busnes ar 10 Hydref.

**Cefndir**

3. Eglurwyd y cefndir cyffredinol a’r goblygiadau ariannol yn y ddogfen HSS-16-00(p.4). Mae’r hyblygrwydd a ganiateir dan Adran 31 Deddf Iechyd 1999 (cyllido ar y cyd, pennu un corff i arwain wrth gomisiynu a darpariaeth integredig) yn bwerau caniataol i alluogi cydweithio agosach nag y byddai’r ddeddfwriaeth flaenorol wedi ei chaniatau rhwng yr NHS a llywodraeth leol. Yr amcan yw gwella’r gwasanaethau i ddefnyddwyr a chynhalwyr a hyrwyddo torri tir newydd yn y dulliau o ddarparu gwasanaethau.

**Y Canllawiau Drafft**

4. Datblygwyd y canllawiau drafft gan weithgor o gynrychiolwyr o’r NHS, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a swyddogion o Is-adrannau perthnasol y Cynulliad. Mae’n egluro’r materion hynny y bydd yn rhaid i’r rheini sy’n bwriadu manteisio ar yr hyblygrwydd newydd eu hystyried. Mae’n egluro’r cyd-destun o ran polisi, y fframwaith deddfwriaethol sy’n berthnasol i’r rheoliadau a’r canllawiau, pwy gaiff fod yn bartneriaid statudol, materion yn ymwneud â chynllunio ac ymgynghori, disgrifiad o’r trefniadau hyblyg newydd a sut y gellir eu defnyddio,

modelau llywodraethu, materion yn ymwneud ag atebolrwydd a rheoli perfformiad, materion ariannol, cwynion, anghydfodau a sut i adael y cynllun.

5. Ar y cyfan mae'r cynnwys yn berthnasol i weithwyr proffesiynol yn yr NHS a'r awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am weithredu cynlluniau sy'n defnyddio'r hyblygrwydd newydd. Mae dogfen fyrrach yn cael ei pharatoi i'r rheini sy'n ymwybodol o'r egwyddorion er nad ydynt angen y manylion. Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys astudiaethau achos sy'n ceisio dangos sut y bydd defnyddio'r hyblygrwydd yn gwella gwasanaethau i'r rheini sy'n dibynnu arnynt. Mae pob un ohonynt yn seiliedig ar achosion go iawn.

**Atebion yr Ymgynghori**

6. Cafwyd pedwar ateb ar ddeg i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft a gynhaliwyd rhwng Mehefin a Medi. Mae copïau o'r atebion hyn ar gael yn y llyfrgell.

7. Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r hyblygrwydd newydd yn bositif. Yr ydym wedi cynnwys cymaint ag y gallwn o'r pwyntiau penodol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn y fersiwn amgaeedig. Fodd bynnag, fel y dengys y canllawiau drafft bydd angen canllawiau ychwanegol, ynghylch rhannu gwybodaeth a chodi tâl wedi i bethau ddatblygu ymhellach. Cododd y ddau fater yn ystod yr ymgynghoriad. Mae grp arbenigol yn edrych ar faterion yn ymwneud â gwybodaeth. Mae mwy o waith yn cael ei wneud ym maes codi taliadau. Mae'n codi o ymateb y Llywodraeth i'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir ac Adroddiad "Charging with Care" y Comisiwn Archwilio.

8. Ni fydd y canllawiau'n ddogfen statig. 3.1 Bydd angen ei diweddaru o bryd i'w gilydd a'i hadolygu yng ngoleuni profiadau ymarferol. Mae rhai o'r atebion a ddaeth i law yn gofyn inni roi mwy o fanylion ynghylch meysydd penodol, ond mae'n rhaid sicrhau bod y ddogfen yn gytbwys, yn berthnasol ac yn hawdd i'w defnyddio. Gweithwyr yn y maes fyd yn ystyried y manylion yng ngoleuni eu hamgylchiadau nhw ar ar sail achosion unigol. Gydag amser, dylai'r gwaith ychwanegol yr ydym wedi addo ei wneud ym maes arferion gorau a gwerthuso gynnig cronfa o gymorth ymarferol i'r rheini sy'n ystyried defnyddio'r hyblygrwydd newydd.

**Datganoli**

9. Yn amodol ar Orchymyn Cychwyn fydd hefyd yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Busnes ar 10 Hydref, bydd gan y Cynulliad y pwer i roi canllawiau i sefydliadau'r NHS a'r awdurdodau lleol yn unol ag Adran 31(6) Deddf Iechyd 1999. Trosglwyddwyd pwerau dan Ddeddf Iechyd 1999 i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cyflwyniad**

10. Trefnwyd cynhadledd yn Llandrindod ar 29 Tachwedd ble y byddaf yn lansio'r canllawiau.

Y gobaith yw y bydd ystod eang o weithwyr yr NHS, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol ac aelodau'r awdurdodau lleol yn mynychu'r gynhadledd. Bydd tri sector yn cael cyfle i ymateb wedi'r lansiad: llywodraeth leol, yr NHS a'r sector gwirfoddol. Cynhelir grwpiau trafod, fydd yn bwrw mwy o oleuni ar fonitro a gwerthuso, yn ystod sesiwn y prynhawn.

11. Bwriadwn gyhoeddi'r canllawiau ganol mis Tachwedd cyn y gynhadledd; a chyn i'r rheoliadau ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2000.

**Gweithredu**

12. Byddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y canllawiau drafft.

**Jane Hutt**

Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Hydref 2000

Cysylltwch â: Lynne Hamilton, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, Est 6429